Mae Gwenyn yn Wych

Cewch fêl ar eich bysedd gyda gwenyn!

Sut mae Gwenyn Mêl yn Edrych?



Cartrefi'r Gwenyn

Mae'r Famwenynen, y Gwenyn Gweithgar a'r Gwenyn Gormes yn byw mewn **nythfa** (grŵp). Mae'r nythfa'n byw mewn **cwch gwenyn** (enw eu cartref).

Yn y cwch gwenyn, ceir 'fframiau' gyda chwyr ynddynt. Mae'r gwenyn yn 'gweithio'r' cwyr a dyma lle maen nhw'n storio'u mêl.

Cylch Bywyd y Wenynen

Pryfed yw gwenyn ac mae pedwar cam i'w cylch bywyd:
wy – larfa – pwpa – oedolyn

Mae'n cymryd 21 diwrnod i'r wenynen weithgar ymddangos.

Diwrnod 1: mae'r famwenynen yn dodwy un wy ym mhob un o gelloedd y dil.

Diwrnod 4: mae'r wy'n deor i larfa, sef lindysyn heb goesau sy'n edrych fel selsigen wen fechan!

Caiff cymysgedd o baill a neithdar a elwir yn 'fara gwenyn' ei fwydo i'r larfa.

Diwrnod 9: caiff y gell ei gorchuddio â chwyr a newidia'r larfa i'r pwpa.

Diwrnod 21: mae'r wenynen weithgar yn ei llawn dwf yn ymddangos.

Mor Ddiwyd â'r Wenynen

Oes rhywun wedi dweud wrthych eich bod mor ddiwyd â'r wenynen? Os felly, mae'n rhaid eich bod chi wedi bod yn brysur iawn yn wir. Mae gwenyn gweithgar yn bryfed prysur iawn.

Y 3 diwrnod cyntaf: Mae'r wenynen weithgar yn glanhau ac yn cwyro'r celloedd yn barod i'r Famwenynen ddodwy ei hwyau ynddynt.

Y 5 niwrnod nesaf: Mae'r wenynen weithgar yn gweithio fel nyrs gan wneud 'bara gwenyn' y mae hi'n ei fwydo i'r larfâu.

Y 6 diwrnod nesaf: Mae'r wenynen weithgar yn cynhyrchu fflawiau o gwyr ar ochr isaf ei habdomen y mae hi'n ei ddefnyddio i adeiladu dil newydd.

Tair wythnos oed: Mae rhai gwenyn gweithgar yn gwarchod y cwch. Gallai rhai gwenyn o nythfeydd eraill geisio mynd i mewn i'r cwch i ddwyn mêl ond mae'r gwenyn gwarchod yn adnabod eu harogl gwahanol ac yn eu herlyn i ffwrdd. Mae'r gwenyn gweithgar hefyd yn barod i ddechrau chwilota am neithdar a phaill am fwyd. Ar ôl rhyw dair wythnos o chwilota, mae'r wenynen weithgar wedi ymlâdd ac mae'n marw.

Gwenynwyr

Pobl yw'r rhain sy'n cadw ac yn gofalu am wenyn.

Gwnânt yn siŵr fod eu gwenyn yn iach a bod ganddynt ddigon o fwyd i'w cadw'n fyw yn ystod y gaeaf. Ar ddiwedd yr haf, bydd y gwenynwr yn casglu mêl o'r cwch ac yn ei roi mewn jariau i'w gwerthu.

Pam Mae Angen Gwenyn Arnom?

Pryfed bach yw gwenyn ond maen nhw'n bwysig iawn, iawn. Maent yn peillio'n planhigion a'n coed. Pe na fyddai'r gwenyn yn cario'r paill o un planhigyn i'r llall ar eu cyrff blewog, ni fyddai'n planhigion a'n coed yn gallu cynhyrchu ffrwythau a hadau. Heb wenyn, dim ond ychydig blanhigion fyddai'n tyfu ac ni fyddai gennym ddigon o fwyd i gadw pawb yn y byd yn fyw!

Mae gwenyn hefyd yn gwneud mêl sy'n cael ei fwyta gennym a'i ddefnyddio mewn meddyginiaeth ac yn gwneud cwyr a ddefnyddiwn i wneud canhwyllau, cynhyrchion prydferthu a chwyr celfi.

Sut Gallwch Helpu'r Gwenyn?

Trwy blannu planhigion cyfeillgar i wenyn - mae gwenyn yn hoffi sawl amrywiaeth o flodau yn ogystal â ffrwythau a llysiau blodeuol.

Gwnewch nyth gwenyn a gosodwch ef yn eich gardd yn ofalus. Dylai hyn ddenu cacwn neu wenyn unig.

COFIWCH!
Byddwch yn Garedig i Wenyn!

Cymdeithas Gwenynwyr Llambed a'r Cylch
lampeterbeekeepersassociation.co.uk/cy

gyda diolch i
Gwenynwyr
Pen-y-Bont
BRIDGEND BEEKEEPERS
GWENYNWYR PEN-Y-BONT